# Cylch Gorchwyl Archwiliad Mewnol Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo** | *Grŵp Gweithredol Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd* |
| **Dyddiad Cymeradwyo** | *Rhagfyr 2017* |
| **Perchennog y Polisi / Canllawiau** | *Rheolwr Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd* |
| **Manylion Cyswllt y Polisi / Canllawiau** | *Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd*<br>*hasstaff@aber.ac.uk neu 01970 62(2073)* |
| **Statws y Polisi / Canllawiau** | *Diwygiedig* |
| **Cyfeirnod** | *P004* |
| **Fersiwn** | *V2.0* |
| **Dyddiad Adolygu** | *Bob 3 Blynedd* |

## 1.0 Pwrpas:

1.1 Adolygu cydymffurfiaeth Cyfadrannau ac Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol yn unol â Pholisïau a Gweithdrefnau Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd Prifysgol Aberystwyth, gofynion cyfreithiol, ac arferion gorau cydnabyddedig.

1.2 Adolygu rheolaeth risgiau a pheryglon yn unol â Llawlyfrau Iechyd a Diogelwch Cyfadrannau ac Adrannau, a ddylai yn eu tro adlewyrchu Polisïau a Gweithdrefnau cysylltiedig y Brifysgol.

1.3 Nodi ac ystyried gweithgareddau ac arferion risg uchel canfyddedig.

1.4 Sicrhau bod nwyddau a gwasanaethau a ddarperir a/neu a brynir yn ystyried ac yn mynd i'r afael â deddfwriaeth ac arferion iechyd a diogelwch perthnasol.

1.5 Cadarnhau addasrwydd systemau rheoli a rheolaethau dogfennau iechyd a diogelwch, megis asesiadau risg a Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH).

1.6 Adolygu gweithgareddau a mesurau rheoli cysylltiedig yn rhagweithiol, a darparu argymhellion ar gyfer gwella.

## 2.0 Cwmpas:

2.1 Bydd holl Gyfadrannau ac Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol y Brifysgol yn derbyn archwiliadau mewnol iechyd, diogelwch ac amgylchedd, wedi'u trefnu o fewn ysbeidiau priodol, a'u hailadolygu yn achlysurol.

2.2 Bydd yr archwiliadau yn ystyried digonolrwydd trefniadau lleol yn cynnwys a oes digon o weithdrefnau a dogfennau iechyd a diogelwch ar gael, ac yn cael eu cyfathrebu'n briodol.

2.3 Blaenoriaethir y meysydd i'w harchwilio yn ôl eu lefel risg ganfyddedig. Bydd sampl gynrychioladol o feysydd gwaith yn cael eu harchwilio.

2.4 Mae'r cwmpas yn cynnwys rheolaeth a llywodraethiant risgiau a pheryglon y Brifysgol.

2.5 Gellir datblygu cwmpas penodol ar gyfer archwiliad penodol, ond rhaid ei cytuno'n ysgrifenedig ymlaen llaw lle bo'n berthnasol.

2.6 Yn ystod yr archwiliad, gall yr archwilwyr gyfeirio at y dogfennau isod:

- 2.6.1 Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch;
- 2.6.2 Polisïau a Gweithdrefnau Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd y Brifysgol;
- 2.6.3 HSG65 Dogfen Rheoli iechyd a diogelwch;
- 2.6.4 Llawlyfrau Iechyd a Diogelwch Cyfadrannau/Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol;
- 2.6.5 Dogfen Rheoli Iechyd a Diogelwch Cymdeithas Diogelwch ac Iechyd Prifysgolion.

## 3.0 Diffiniadau a Byrfoddau:

3.1 *Archwiliad Mewnol*: Trefn systematig, annibynnol a ddogfennir ar gyfer sicrhau tystiolaeth archwilio a'i gwerthuso'n wrthrychol i ganfod pryderon ynghylch iechyd, diogelwch neu amgylchedd.

3.2 *Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd PA*: Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd Prifysgol Aberystwyth.

## 4.0 Cyffredinol:

4.1 Bydd Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd PA yn sicrhau bod Polisïau a Gweithdrefnau PA yn adlewyrchu gofynion deddfwriaeth gyfredol. Bydd newidiadau i bolisïau ac arferion Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd PA yn cael eu cyfathrebu i Gyfadrannau ac Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol adeg eu cyhoeddi.

**5.0 Cyfrifoldebau:**

5.1 Bydd Rheolwr y Cyfadrannau/Pennaeth Adran yn hwylsuo cadarnhau trefniadau'r archwiliad gyda'r archwilydd/archwilwyr. Gellir diwygio'r Cylch Gorchwyl yn briodol yn unol â chyfleusterau a gweithgareddau lleol, lle bo'n berthnasol.

5.2 Bydd Rheolwr y Cyfadran/Penaethiaid Adrannau yn sicrhau bod cynrychiolwyr lleol yr is-adrannau neu feysydd lleol sy'n cael eu cynnwys yn y rhaglen archwilio a gytunwyd ar gael.

5.3 Bydd Rheolwr y Cyfadran/Penaethiaid Adrannau yn helpu i ddiffinio'r meysydd a fydd yn cael eu cynnwys yn y rhaglen archwilio ar y cyd â'r archwilydd/archwilwyr a benodir.

5.4 Bydd cynrychiolydd/cynrychiolwyr lleol ar gael i hebrwng yr archwilydd/archwilwyr ar adegau a gytunir.

5.5 Bydd y cynrychiolydd/cynrychiolwyr lleol yn cyflwyno dogfennau y gofynnir amdanynt yn ôl amserlen a gytunir arni.

5.6 Rheolwr y Cyfadran/Penaethiaid Adrannau sy'n gyfrifol am gadw, a dosbarthu fel sy'n briodol, gopïau electronig neu gopïau caled o'r adroddiad archwilio.

5.7 Rheolwr y Cyfadran/Penaethiaid Adrannau fydd yn gyfrifol am fynd i'r afael ag unrhyw ganfyddiadau a amlygir yn yr adroddiad archwilio, ac am eu cywiro.

5.8 Bydd Rheolwr y Cyfadran/Pennaeth Adran yn darparu adroddiadau cynnydd rheolaidd ac yn rhoi gwybod fod y camau gweithredu ac argymhellion a gytunwyd wedi'u cwblhau.

**6.0 Gweithdrefn**

6.1 Hwylusir gohebiaeth i gytuno ar y Cylch Gorchwyl, cwmpas a rhaglen yr archwiliad â'r rheolwyr priodol.

6.2 Bydd yr archwilydd a benodir yn cynnal pob archwiliad mewnol yn unol â'r cwmpas, y meini prawf a'r rhaglen archwilio sydd wedi'u diffinio.

6.2.1 Yn ystod yr archwiliad, bydd yr archwilydd a benodir yn categoreiddio'r canfyddiadau yn unol ag elfen berthnasol meini prawf yr archwiliad, un ai fel argymhellion neu feysydd i wella arnynt.

6.2.2 Ar ôl cwblhau pob archwiliad mewnol, bydd yr archwilydd a benodir yn llunio adroddiad archwilio ar gyfer Rheolwr y Cyfadran/Penaethiaid Adrannau, yn crynhoi eu canfyddiadau.

6.2.3 Bydd yr archwilydd/archwilwyr yn manylu ar y camau gweithredu a'r argymhellion a gytunir yn yr adroddiad archwilio.

6.2.4 Trefnir ymweliad dilynol os oes angen i adolygu gweithredu'r prif gamau.

6.2.5 Adolygir y camau gweithredu ar adeg briodol a ddiffinnir gan y rhaglen archwilio.

**7.0 Diogelwch:**

7.1 Rhaid cydymffurio â'r holl Bolisïau a Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch perthnasol.

**Dogfennau Cysylltiedig:**

7.2 Rhaglen archwilio

7.3 Adroddiad archwilio